Cyfundeb Dwyrain Morgannwg

Undeb yr Annibynwyr

15 Chwefror 2011

Annwyl gyfeillion,

Cynhelir dau gwrdd pwysig yn y misoedd nesaf:

- Cwrdd Agored i aelodau neu swyddogion eglwysi heb weinidog ac i drefnu Sul y Cyfundeb yng Ngwesty Cardiff International, Tongwynlais am **10.30yb, dydd Mercher 9 Mawrth** (gweler map)
- Cwrdd Chwarter yn Minny Street, Caerdydd am **7yh, nos Fercher 4 Mai** gyda'r Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod am 6yh (gweler map)

Gofynnir yn garedig i chwi roi gwybod am y digwyddiadau Cyfundeb uchod yn uniongyrchol ymysg eich aelodaeth gan eu bod wedi eu llunio i weld beth all y Cyfundeb wneud ar ran pawb mewn eglwysi.

Nodyn Arbennig – Llythyr ar ddolenni cyswllt rhwng eglwysi
Yn sgil y Cwrdd Chwarter diwethaf daeth yn fwy amlwg fod angen syniadau o anghenion eglwysi heb weinidog er mwyn sicrhau fod y Cyfundeb yn fodd o weithio ar ran aelodau a bod yn fwy perthnasol iddynt. Gyda'r cylchlythyr diwethaf (dyddiedig 3 Ionawr), anfonwyd llythyr (gydag amlen hunan-gyfeiriad) yn amlinellu dyhead y Cyfundeb i fod o gymorth ymarferol, ac mae'r cyfle i roi gwybod am unrhywbeth o gwbl y teimlir gall y Cyfundeb wneud ar ran eich eglwys yn agored o hyd. Fel gwelir yn y cofnodion, heb roi gwybod i'r Pwyllgor Gwaith am faterion tebyg mae'n amhosib i'r Cyfundeb wybod os yw'n gwasanaethu eich eglwys yn y ffordd mwyaf effeithiol. Drwy gydgysylltu mae'n bosib gellir ymateb neu o leiaf chwilio am gyngor pellach ar broblemau na ellir eu datrys ar lefel eglwysi unigol. Achubwch ar y cyfle i ddweud beth all y Cyfundeb wneud i aelodau – dewch i'r Cwrdd Agored (9 Mawrth) neu gyrrwch air yn yr amlen!

****Nodyn Olaf – Apel am gymorth, Eglwys Unedig Llanfair, Penrhys****
Un o'r lleoliadau pwysicaf i gynnal cyswllt tebyg yw Eglwys Unedig Penrhys a gofynnir am unrhyw help ymarferol gyda gwasnaethau ellir ei gynnig yma. Yn ddiweinidog ers 2009, lluniwyd rota i'r gwahanol enwadau sydd yn rhan o'r eglwys i fod yn gyfrifol am wasanaethau – pregeth (Sul) a chymundeb (Mercher). Daeth cais i'r Annibynwyr ail-ymweld a'r rota cyn gynted a'r mis nesaf. Er ymdrechu mae'n naturiol yn profi'n anodd i lanw'r pulpud ar fyr rybudd. Gwneir apel felly ar i unrhyw unigolion sydd yn teimlo gallu i gynnig gwasanaeth Saesneg fer (40 mun i gyd, pregeth tua 10 mun am 3yh Sul, a defosiwn gymun debyg 9.30yb Mercher, drwy fis Mawrth) i roi gwybod i mi cyn gynted a phosib plis (manylion cyswllt isod). Gwyrthiol fu ymdrechion eglwys Llanfair dros y blynyddoedd yn aml mewn amgylchiadau anodd, felly byddai unrhyw gymorth i fugeilio'r gymuned ysbrydol arbennig hon o werth enfawr.

Diolch i chwi am roi sylw i gynnwys y llythyr yma a gobeithio y cawn gwmni aelodau o'r Eglwys yn y cyrddau hysbysebir uchod.

Pob bendith,

GARETH EVANS

Ysgrifennydd
Mr Gareth Evans
33 Pendragon Close
Y Ddraenen/Thornhill
Caerdydd
CF14 9BD
Tel: (029) 2052 2302
Ebost: gareth.evans5@virgin.net

Cadeirydd
Parch Kevin Davies
31 Amalfi House
Ffordd Garthorne
Caerdydd
CF10 4DA
Tel: (029) 2047 1525
Ebost: d.k.davies@btinternet.com

Trysorydd
Mrs Heulwen Cooper
3 Porth y Castell
Y Barri
Bro Morgannwg
CF62 6QA
Tel: (01446) 733784
Ebost: heulwen@ntlworld.com